PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 | Cyfrol 158 | Rhif 27 | Gorffennaf 3, 2025 | 50c.

## Byw fyddi Nant Gwrtheyrn

Wrth nadreddu i lawr y lôn gul, serth o gyfeiriad Llithfaen at y môr, y mae dyn yn ymwybodol o'r holl elfennau sy'n rhan o gyfansoddiad Nant Gwrtheyrn. Cynhwysant y chwedlonol, y tywysogaidd, yr ieithyddol, y cymdeithasol, y diwydiannol, y cymdeithasol, y cadwraethol, y cerddorol, a'r Cristnogol. Y mae'n llecyn ynysig hardd sy'n fan delfrydol i gynnull ynghyd i gynnal encil er mwyn paratoi i wynebu'r byd rhyfedd hwn yr ydym yn byw ynddo. Ac yma y cynhaliwyd Cyfarfodydd Blynyddol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg o'r 25ain i'r 27ain o fis Mehefin o dan lywyddiaeth Jeff Williams, Aberhonddu.


Yr oedd yn gynhadledd gynhyrchiol, fuddiol ac ar brydiau, dirdynnol. Ac mae'n rhaid dweud wrth gychwyn bod arwyddion clir o egin newydd, gweledigaeth a brwdfrydedd yn dod i'r fei. Yn raddol y mae'r cwmwl o negyddiaeth a digalondid fu'n ein llethu yn clirio ac mae awel gref yr Ysbryd i'w deimlo yn ein plith yn ein harfogi ar gyfer cyfnod newydd.

Yma rhoddwn grynodeb o rai o'r prif ddigwyddiadau ar y dydd cyntaf gan obeithio yn ystod yr wythnosau nesaf roi rhagor o sylwedd i chi o'r hyn fu ar y gweill.




### Dydd Mercher

Wedi gair o groeso gan y llywydd aethpwyd ati i addoli ac i gnoi cil dros ran o'r Beibl o dan arweiniad medrus Dafydd Roberts, Trefor. Aeth â ni at Salm 73. Mae'r Salmydd bron a baglu oherwydd ei fod yn genfigennus o'r drygionus. Yn ymddangosiadol y maent hwy yn llwyddiannus ac yn ddibryder (adnodau 2–12). Ochneidia yn llawn rhwystredigaeth, beth oedd y pwynt iddo ef geisio cadw ei galon yn lân pan mai'r drwg



oedd yn llwyddo? Yna fe aeth i'r cysegr i addoli a myfyrio ar bethau Duw ac yno sylweddololdd beth fyddai tynged y drwg. Yn yr addoliad y cafodd y Salmydd oleuni i wynebu'r byd gyda ffydd. Heddiw gyda chelwyddau a thwyll gwleidyddion a hunanhyder y drygionus gallwn uniaethu gyda'r Salmydd. Mor hanfodol felly yw addoliad cyhoeddus i'n hiechyd ysbrydol. Yno cawn weld mawredd Duw a'i gariad yn Iesu a gweld helbulon y byd a'r betws yng nghyd-destun yr Hollalluog a'i newyddion da. I gloi dywedodd Dafydd, 'Cofiwn ar gychwyn yr Undeb beth a phwy sydd o'n plaid ni, beth yw aruthrol fawredd y gallu sydd gan Dduw o'n plaid ni sy'n credu, y grymuster a gyfododd Duw oddi wrth y meirw. At ein gwaith â ni.' Terfynwyd trwy ganu emyn mawr Dafydd Jones, Treborth, 'Mae Duw yn llond pob lle'.

### Busnes

Cafwyd cyfnod o drafod busnes gan dderbyn Adroddiad Undeb Dwyrain Morgannwg 2024 ac ethol cynrychiolwyr i amrywiol gyfrifoldebau. Hefyd fe'n gwahoddwyd yn gynnes, trwy gyfrwng fideo, gan Fiona Ganon i gyfarfodydd blynyddol 2026 a gynhelir yng ngwesty'r Tŵr, Abertawe ar y 24–26 Mehefin.

Nodwedd sy'n datblygu yng ngweithgareddau'r Undeb yw'r defnydd cynyddol o fideos proffesiynol. Mae hyn yn gaffaeliad gan eu bod yn gryno, yn ddeniadol i'r llygad ac yna yn cael eu gosod ar sianel YouTube yr Undeb fel bod y werin a'r miloedd yn gallu eu gwylio. Diolchwn am hyn ac am y gwaith mawr a wneir gan Rhodri Darcy gydag elfennau digidol ein tystiolaeth.

Etholwyd y darpar lywydd sef Robin Samuel, Pen-y-bont ar Ogwr a fydd yn cychwyn ar ei lywyddiaeth mewn dwy flynedd. Croesawyd yr Ysgrifennydd Cyffredinol etholedig sef Elinor Wyn Reynolds, Caerfyrddin, fydd yn dechrau ar ei gwaith ym mis Medi eleni a dymunwyd yn dda iddi yn ei chyfrifoldebau.

Wedi toriad byr fe gafwyd dau adroddiad, y cyntaf gan Carwyn Siddall, Cydlynydd Hyrwyddo Gweinidogaethau yr Undeb a Dyfrig Rees yr Ysgrifennydd Cyffredinol. Nid wyf am ymhelaethu ar hyn yma oherwydd y cawn grynodeb llawnach o'r hyn a ddywedwyd ganddynt mewn rhifynnau dilynol o'r *Tyst*. Gwyliwyd hefyd 2 fideo, y cyntaf yn ein croesawu i'r ardal a'r ail yn gynnyrch prosiect Denman gan y Tabernacl, Efailisaf.

*parhad ar dudalen 2*

# Byw fyddi Nant Gwrtheyrn – *parhad*

### Brwdfrydedd

Unwaith eto trwy gyfrwng fideo cafwyd cyflwyniad o waith sydd yn digwydd yng Ngofalaeth Chwilog, Yr Hen Gapel Llanuwchllyn a Gofalaeth Bro Nant Conwy. Gellir gwylio'r rhain ar gyfrif YouTube yr Undeb sef Teledu Annibynwyr. Gwglwch a chwi a gewch. Nodwedd fwyaf y gwaith yn y tri lleoliad hyn oedd mentergarwch, brwdfrydedd a ffydd aelodau'r eglwysi. Bellach y mae llawer o gynulleidfaoedd yn torri allan o blisgyn wy ein traddodiad i ryddid mynegiant a gweinidogaethau amgen. Mae'n wefreiddiol gweld hyn oherwydd ei fod yn cyffwrdd bywydau pobl y tu allan i'n cylch arferol ac yn fynegiant



clir o'r awydd i genhadu a rhannu'r newyddion da am Iesu. Ac wrth gwrs y mae'n ysbrydoliaeth i'r gweddill ohonom i bydru arni yng ngwaith yr Arglwydd

### Min nos

Yn ystod y pryd bwyd gyda'r nos fe groesawyd cynrychiolwyr o amrywiol enwadau. Mae hon yn weithred bwysig gan ei bod yn dangos ewyllys da ac yn arwydd clir nad pobl ynysig yw Annibynwyr ond rhan o'r gymuned Gristnogol ehangach.

I gloi gweithgareddau'r dydd fe gafwyd noson o adloniant yng nghwmni côr Cantorion Llŷn o dan arweiniad John Glyn. Llywyddwyd gan Arwyn Owen Hughes, Nefyn a chafwyd gwledd gerddorol yn cynnwys darnau corawl, deuawdau ac unawdau. Diolch i'r côr am noson hyfryd yng nghwmni ein gilydd.

A bu bore a bu hwyr, y dydd cyntaf.

*Yn y rhifyn nesaf o'r* Tyst *fe gawn ragor o hanes cyfarfodydd Undeb 2025*.

# Madagascar

***Dathliad llawen o 200 mlynedd – Ysgol FJKM David Griffiths,Ambohidratrimo***

Diwrnod nodedig oedd 20 Mai 2025, wrth i Ysgol FJKM David Griffiths yn Ambohidratrimo ddathlu ei phen-blwydd yn 200 oed – carreg filltir wirioneddol yn ei thaith o ffydd ac addysg. Dechreuodd y dathliad gyda gwasanaeth diolchgarwch arbennig, dan arweiniad cynrychiolydd o bencadlys FJKM Madagascar. Roedd yn foment gyffrous iawn a ddaeth â myfyrwyr, athrawon, cyn-fyfyrwyr, arweinwyr cymunedol, a gwesteion ynghyd mewn diolchgarwch a myfyrdod.

### Dosbarthiadau

I nodi'r achlysur hanesyddol hwn, agorwyd dwy ystafell ddosbarth newydd yn swyddogol, yn cynrychioli twf, parhad, a gobaith ar gyfer y dyfodol. Yn ogystal, dyfarnwyd medalau gwaith gan y wladwriaeth i ddau athro ymroddedig, gan gydnabod eu hymroddiad diysgog i addysg. Ychwanegodd areithiau ysbrydoledig gan Gyfarwyddwr Ysgol FJKM, pwyllgor pen-blwydd 200 oed, a dirprwy Ysgol Ambohidratrimo, a'n tîm Ankizy Gasy ystyr at y digwyddiad, gan atgoffa pawb o werth gweithio gyda'n gilydd i godi calon y genhedlaeth iau. Roedd yn fraint i ni yn Ankizy Gasy fod yn rhan o'r dathliad pwysig hwn. Mewn un o'r areithiau, cawsom ein cydnabod yn gynnes am ein cefnogaeth ers 2018, trwy ymdrechion Miara Rabearisoa a'i





ffrindiau yng Nghymru, yn ogystal â'n nawdd parhaus i 178 o blant yn yr ysgol.

Daeth y dathliad i ben gyda chinio llawen i'w rannu, diweddglo perffaith i ddiwrnod llawn diolchgarwch, atgofion, ac ymrwymiad newydd i'r dyfodol. Pen-blwydd hapus yn 200 oed, Ysgol David Griffiths FJKM! Bydded i'ch gwaddol barhau i ysbrydoli a thrawsnewid bywydau am genedlaethau i ddod.

Yr Adran Gydenwadol

GORFFENNAF 3 2025 RHIF 227

# 'Gadewch i'r plant ddod ataf fi'

Mae'n debyg bod yr adnod 'Gadewch i'r plant ddod ataf fi a pheidiwch â'u rhwystro, oherwydd i rai fel hwy y mae teyrnas nefoedd yn perthyn' yn Efengyl Mathew yn gyfarwydd i ni i gyd. Ond hawdd gellid holi y dyddiau hyn: pa gamau rydyn ni'n eu cymryd i'w gwahodd a'u croesawu atom? Ydyn ni wir am weld plant swnllyd a'u teuluoedd yn ein gwasanaethau wythnosol? Faint o ystyriaeth ydyn ni'n ei rhoi i'w croesawu a gwneud yn siŵr eu bod yn teimlo'n gartrefol a chyffyrddus yn ein plith mewn oedfa? Ydi'r hyn a wnawn mewn oedfa arferol yn apelio at blant?

Mae'n debyg y bydd llawer yn ystyried eu bod yn cyflawni eu dyletswydd at waith plant drwy'r Ysgol Sul neu glwb plant, neu efallai drwy gyfarfod plant mewn ysgol. Fodd bynnag, prin iawn yw'r plant a welir mewn oedfa y dyddiau hyn, a gan amlaf, wedi sgwrs sydyn gan y gweinidog ar y dechrau, a rhannu adnod o bosib, byddant yn mynd allan i'r festri ar gyfer y gweithgarwch plant sydd wedi ei drefnu ar eu cyfer. Mae cynlluniau fel Llan Llanast a Chwarae a Chredu yn ceisio pontio'r gagendor rhwng gwaith plant a gwasanaethau'r capel, ond fel arfer digwyddiadau misol neu dymhorol yw'r cyfarfodydd hyn.

Ar ymweliad ag eglwysi yn Genefa yn ddiweddar cefais fy nghyflwyno i 'Eglwys y Plant', sef eglwys fechan, mewn hen ysgoldy lle bu John Knox yn gweinidogaethu am dair blynedd, wedi ei lleoli'r drws nesa ac yng nghysgod cadeirlan fawreddog Sant Pedr. Mae'r eglwys wreiddiol ar y safle yn mynd yn ôl i'r 6ed ganrif, ond yna wedi ei defnyddio fel ysgoldy Protestannaidd ac wedi ei henwi erbyn hyn ar ôl John Calfin. Mae'n eglwys sy'n dal i gadw ei chysylltiadau ag Eglwys yr Alban, ac mae gweinidog Albanaidd yn dal yn weithredol yno, yn bugeilio cynulleidfa fechan o Albanwyr oedrannus. Ond yn y blynyddoedd diwethaf hyn trawsnewidiwyd y prif gapel yn ofod croesawgar i blant, a bob Sul daw llond capel o blant a'u teuluoedd ynghyd ar gyfer oedfa i bob oed. Braf



oedd gweld dwy eglwys hollol wahanol i'w gilydd yn rhannu yr un gofod.

Menter gan yr Eglwys Efengylaidd Ddiwygiedig yn y Swistir, sef y prif enwad Protestannaidd yn y wlad, oedd hon. Mae ganddynt ddiacon a gweinidog llawn amser yn gweithio yno, yn trefnu oedfaon wythnosol ac yn bugeilio'u praidd o deuluoedd yn y ddinas.

Wrth gerdded i mewn i'r eglwys, mae'r croeso yn amlwg, gydag ysgafnder a lliw a digon o olau'n llifo i mewn drwy'r ffenestri lliw cyfoes. O fynd drwy'r drws, mae yna fwrdd isel, efo diodydd a bisgedi i bawb sy'n cyrraedd, a murlun mawr o blentyn yn estyn croeso. Mae corff y capel yn ofod mawr ac agored, gyda chadeiriau symudol, ond yr ochrau wedi eu cadw fel 'capeli ochr' bychain. Mae yna gornel ar gyfer Godly Play (Chwarae a Chredu yn Gymraeg) sy'n rhoi cyfle i blant glywed a bod yn rhan o'r stori drwy symud y cymeriadau bach pren o gwmpas yr olygfa. Drws nesa, yn y capel bach arall, roedd yna le i weddïo, drwy weithgareddau gweddi, neu gyfle i wrando neu fyfyrio'n dawel. I blant sy'n hoff o dawelwch a llonyddwch roedd yna di-pi gweddi oedd yn cynnig dihangfa o sŵn y lle.

Roedd gofod drws nesa ar gyfer crefft, â digon o opsiynau creadigol. Nid casgliad blêr o daflenni lliwio, ond cyfle i greu calon weddi liwgar, paentio colomen bren ar Sul y Pentecost, neu greu fflam dân liwgar allan o wydr.

Ond mae'n debyg mai'r hyn oedd yn fwyaf traddodiadol oedd ffurf y prif wasanaeth. Cawsom gyfle i ymuno mewn oedfa ar ddydd Llun y Pentecost. Diddorol oedd sylwi bod y ddinas yn cadw Llun y Pentecost fel dydd Gŵyl Banc, gyda'r siopau a'r atyniadau fel amgueddfeydd i gyd ar gau. O'r croeso cychwynnol hyd at gyhoeddi'r fendith, roedd pob dim yn troi o gwmpas y plant, ond mewn ffordd oedd yn hwylus a braf i oedolion ymuno hefyd. Cafwyd cyflwyniadau gweledol, o adeiladu tŵr Babel allan o flociau i greu golygfa'r Pentecost gan ddefnyddio papur ffrwydrol i ddangos y fflamau tân.

Dau beth a hoffais oedd cloc calendr eglwysig yn dangos y Suliau gwahanol a llinell amser Feiblaidd oedd yn rhoi'r stori mewn trefn amseryddol. Roedd cyfle i blant ddod ymlaen a throi'r clociau hyn fel defod wythnosol. Mae'n dipyn o gamp trefnu oedfa i blant heb iddi ymddangos yn blentynnaidd – ond dyna y llwyddwyd i'w wneud. Roedd llawer o feddwl wedi mynd i greu'r gofod – o sicrhau digon o fyrddau a chadeiriau i bob oed, toiledau addas, addurniadau chwaethus a digon o amrywiaeth o weithgareddau addas at anghenion plant a'u teuluoedd.

Go brin y gwelwn gapeli Cymru'n efelychu'r esiampl hon, ond mae'n debyg y gallem i gyd gymryd camau bychain er mwyn gwneud i blant deimlo'n gartrefol a chyfforddus. Yn ail ran yr erthygl hon, a gyhoeddir yn fuan yn *Cenn@d*, ceir syniadau ymarferol ar yr hyn y gellid ei wneud i drawsnewid ein mannau addoli ni i fod yn fwy hygyrch a chroesawgar i blant a theuluoedd.

*Aled Davies*

## Ymddeoliad Archesgob Cymru, y Parchedicaf Andrew John

Pnawn Gwener, 27 Mehefin, cyhoeddwyd datganiad gan yr Archesgob:

> Annwyl ffrindiau,
> Ysgrifennaf atoch i gyhoeddi fy ymddeoliad fel Archesgob Cymru heddiw. Byddaf hefyd yn ymddeol fel Esgob Bangor ar Awst 31. Mae wedi bod yn llawenydd enfawr i wasanaethu yn yr Eglwys yng Nghymru ers dros 35 mlynedd. Ni allaf ddiolch digon i chi am y fraint o weithio wrth eich ochr chi er mwyn ein Gwaredwr Iesu Grist. Hoffwn ddiolch yn ddidwyll i glerigwyr a chynulleidfaoedd yr esgobaeth wych hon cyn i mi ymddeol a byddaf mewn cysylltiad eto am y ffordd y gallai hyn ddigwydd. Diolch i chi, a boed i Grist roi llawenydd a thangnefedd i chi wrth gredu. +Andy

Mewn ymateb, dywedodd Esgob Llanelwy, y Gwir Barchedig Gregory Cameron, ar ran Mainc yr Esgobion:

> Wrth i'r Archesgob Andrew gyhoeddi ei ymddeoliad heddiw fel Archesgob Cymru a'i ymddeoliad fel Esgob Bangor maes o law, mae Mainc Esgobion yr Eglwys yng Nghymru am fynegi ein diolch gwresog am ei wasanaeth i'r Eglwys yn ystod ei weinidogaeth.
>
> Mae Andy wedi cysegru dros bum mlynedd ar hugain o'i fywyd i weinidogaeth ordeiniedig yn yr Eglwys yng Nghymru, ac mae wedi gwasanaethu gydag ymroddiad ac egni i gyhoeddi'r Efengyl Gristnogol a denu pobl at ffydd ddyfnach yn Iesu Grist. Mae wedi rhoi cymaint er lles yr Eglwys yng Nghymru. Mae bellach yn ildio'i gyfrifoldebau sylweddol, a hynny yn yr un ysbryd ag sydd wedi nodweddu ei wasanaeth dros y degawdau hyn.
>
> Rydym yn cynnig diolch diffuant iddo, ac yn ymrwymo i'w gadw ef a'i deulu yn ein gweddïau ar yr adeg hon ac yn y dyddiau i ddod.

Mae nifer o negeseuon wedi diolch am ei ysbryd ecwmenaidd ac am ei gydweithio hapus â'r traddodiadau ffydd eraill yng Nghymru. Gwnaeth lawer i geisio ysbryd cymodlawn, gan annog cydweithio ar bob lefel. Ymatebodd Cynan Llwyd ar ran Cytûn ar y cyfryngau cymdeithasol gan ddweud: 'Mae Cytûn yn diolch am weinidogaeth yr Archesgob Andrew. Drwy gydol ei arweinyddiaeth daeth ag ysbryd ecwmenaidd cynnes a greddfol, gan adeiladu cyfeillgarwch gwirioneddol ar draws yr enwadau.' Rhannodd y Cyngor Ysgolion Sul hefyd eiriau o werthfawrogiad, 'Bu'r Archesgob Andrew yn gefnogol iawn i waith y Cyngor gydol y blynyddoedd a braint fu cael cyfle i gydweithio ar sawl project Cymraeg arloesol, gan gynnwys cyfrol *Llwybr Cadfan* a fydd yn cael ei chyhoeddi yn ystod yr wythnosau nesaf.'


Diolch i Siôn Aled am yr englyn hwn:

Arweinydd uwchlaw'r weniaith – a'r actio
rhyw Gymreictod diffaith,
Archesgob ddaliodd obaith
a dal gwerth cenedl ac iaith.

Dymunwn fendith Duw ar Andrew a Naomi i'r dyfodol, ac i'r Eglwys yng Nghymru ynghanol cyfnod o geisio olynydd mewn cyfnod anodd. Ymrwymwn i weddïo dros aelodau a chlerigwyr Esgobaeth Bangor, gan ddymuno arweiniad a bendith Duw arnynt yn y cyfnod cyfnewidiol hwn.

*Aled Davies*

## Hanes arlunydd, arloeswr, curadur, prifathro – a llawer mwy




Yn yr ysgrif agoriadol, 'Cerdded Llwybrau Cymru, Cyd-ddyn a Christ', mae'r Athro E. Wyn James yn cyfarch yr arlunydd Ivor Davies ar gyrraedd ei 90 oed. Ac yntau'n frodor o Benarth, ger Caerdydd, mae wedi bywiogi'r bywyd celfyddydol yng Nghymru er diwedd pumdegau'r ganrif ddiwethaf. Cawn yma arweiniad hylaw i'w yrfa yn y Swistir a'r Alban, a dywedir iddo ddychwelyd i Gymru ddiwedd y saithdegau pan oedd brwydr yr iaith yn poethi. Daeth tynged a hunaniaeth Cymru yn gynyddol bwysig iddo, ac adlewyrchwyd hynny yn ei ddarluniau. Daeth i werthfawrogi o'r newydd y gynhysgaeth Anghydffurfiol a gafodd yn blentyn ac yn llanc yng nghapel Bethel, Penarth, lle y'i magwyd. Mae'n fraint gan *Y Traethodydd* roi lle i'r erthygl bwysig hon ac ymuno yn y dathlu.

Llenor a hanesydd o Deal, Caint, yw John Harding, awdur cyfrol bwysig ar Griffith Jones, Llanddowror, a gyhoeddwyd gan Wasg Prifysgol Cymru yn ddiweddar. Yn ei ysgrif 'Griffith Jones a Phriodasau'r Barwnigion', mae'n defnyddio hanes priodas rheithor Llanddowror â Margaret, chwaer y barwnig Syr John Philipps, Castell Pictwn, i enghreifftio sut y gallai rhai o dras isel fel Griffith Jones, oedd yn fab ffarm, godi yn gymdeithasol trwy briodi i mewn i'r bendefigaeth dirol.

Yn 'Cymdeithas, Bro ac Adferiad' mae Eurwyn Wiliam yn tafoli cyfraniad y diweddar Trefor M. Owen i astudiaethau gwerin Cymru. Ysgolhaig tawel a bonheddig oedd Trefor Owen. Ar ôl cael amryw o swyddi yng ngholegau Prifysgol Cymru, bu'n olynydd i'r Dr Iorwerth C. Peate yn bennaeth yr Amgueddfa Werin yn Sain Ffagan. Tueddai ei natur ddiymhongar i guddio aruthredd ei gyfraniad i astudiaethau gwerin yng Nghymru, a da yw cael yr astudiaeth gyfoethog hon ohono. Bydd yr ail ran yn ymddangos yn rhifyn yr hydref.


Gwn y bydd darllen mawr ar drydedd rhan 'Dyddlyfr Prifathro wrth ei Ewyllys', atgofion Derec Llwyd Morgan o'i gyfnod yn llywio Coleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth, yn negawd olaf yr hen ganrif a thu hwnt. Y blynyddoedd 1998 hyd 2000 yw rhychwant y rhan hon o'r dyddiadur, a'i chynnwys yr un mor ddadlennol â'r rhannau blaenorol. Bydd rhan olaf y Dyddlyfr, a fydd yn mynd â'r stori hyd at ei ymddeoliad yn 2004, yn gweld golau dydd yn rhifyn yr hydref. Bydd y cwbl gyda'i gilydd yn ddogfen hanesyddol o bwys.

Bardd y rhifyn hwn yw Robert Lacey a'i adolygwyr yw Katie Gramich a Gruffydd Aled Williams, y naill yn trafod golygiad Diane Pritchard-Jones o ddramâu coll Kate Roberts, a'r llall yn trafod *Yr Enwog Bererinion*, sef golygiad Meg Elis o astudiaeth orchestol ei mam, y diweddar Mari Ellis, o fywyd a gwaith 'yr hen bersoniaid llengar'.

Yn ôl ein harfer, anogwn ffyddloniaid *Cenn@d* nid yn unig i ddarllen *Y Traethodydd* ond i'w brynu a'i archebu. Gellir gwneud hynny trwy gyfrwng y wefan www.ytraethodydd.cymru. Dilynwch ni hefyd ar Drydar ac ar Facebook. Y golygydd yw'r Dr D. Densil Morgan (d.d.morgan@pcdds.ac.uk), Y Gilfach, Ffordd y Gogledd, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7AJ. Am fanylion ynghylch ei archebu, cysylltwch â Rhian Melhuish (rhian.melhuish@ebcpcw.cymru), Swyddfa Eglwys Bresbyteraidd Cymru, 81 Heol Merthyr, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd, CF14 1DD.

# *Llyfr y Pregethwr*

**Yn ystod y tymor hwn byddwn yn astudio Llyfr y Pregethwr gyda'n gilydd dan arweiniad y Parch. Ddr Alun Tudur, gan ddefnyddio cyfrol y diweddar Gareth Lloyd Jones, *Dehongli Bywyd Ruth a Llyfr y Pregethwr* yn ganllaw.**




### Astudiaeth 19: Cynghorion Terfynol

### Llyfr y Pregethwr 11

Cymysgedd o anogaeth a myfyrdod yw rhan olaf Llyfr y Pregethwr. Yma ceir nifer o argymhellion (11:1–2, 6, 9–10 a 12:1–7) yn gymysg â darnau mwy myfyrgar. Pwysleisia eto yr angen i fyw a gweithredu yn y presennol. Mae hynny'n cynnwys manteisio ar bob cyfle i fwynhau bywyd oherwydd ni wyddom beth a ddaw.

### Anogaeth i fentro

Fel yn achos llawer o adnodau eraill y llyfr, mae ystyr 11:1–2 yn annelwig. Un esboniad o'r anogaeth yn yr adnod gyntaf ar i'r darllenydd 'fwrw' ei 'fara ar wyneb y dyfroedd' yw mai cyngor ydoedd i farsiandwr ddefnyddio'r fasnach dramor i werthu a phrynu stoc. Byddai llogi llong i fynd â'i nwyddau i farchnadoedd ym mhellafoedd daear gan ddod â nwyddau eraill yn ôl adref yn broffidiol i'w fusnes.

Ond, yn ôl y dehongliad traddodiadol, galwad yw'r ddihareb i sylweddoli cymaint yw'r wobr i'r sawl sy'n effro i sefyllfa'r anghenus. Trwy rannu ei gyfoeth ag eraill sy'n dioddef, caiff yr haelionus y boddhad o dderbyn eu gwerthfawrogiad am wneud gwahaniaeth i'w bywyd. Dyna neges y Pregethwr: nid yw daioni byth yn mynd yn ofer.

Mae'r esboniad o 11:2 yn dibynnu ar yr hyn a benderfynwyd ynglŷn ag ystyr yr adnod flaenorol. Os mai'r farchnad fyd-eang yw'r cefndir tebygol, ceir yma gyngor i'r sawl sy'n dewis manteisio arni i fentro llogi amryw o longau: 'Rhanna dy gyfran rhwng saith neu wyth'. Pe bai un llong yn suddo mewn storm, byddai ei nwyddau yn ddiogel yn y lleill.

Ond mae'r un egwyddor yn berthnasol mewn achos o elusengarwch. I'r sawl sydd am rannu ei amser, ei dalent a'i eiddo ag eraill mewn cyfyngder, mantais fydd dewis amryw o bobl i roi iddynt, fel bod mwy nag un ar gael i dalu'r pwyth yn ôl pe byddai angen. Oherwydd ni ŵyr neb 'pa drychineb a ddaw ar y ddaear' (8:2).

Mae'r adnodau dilynol (11:3–6) yn ymhelaethu ar ddirgelwch y bydysawd a therfyn gwybodaeth dynolryw. Gellir dibynnu ar gael tywydd addas i hau a medi, ac eto mae byd natur uwchlaw pob ymdrech i'w ddofi (8:8). Ofer disgwyl am ddyfodol delfrydol ar draul y presennol. Ni ddylai neb osgoi gwneud yr hyn sy'n angenrheidiol yn y gobaith o gael yr holl atebion.

Dirgelwch arall yw datblygiad plentyn yn y groth. Ni all neb ddirnad 'sut y daw bywyd i'r esgyrn yng nghroth y feichiog' (11:5), er i hyn ddigwydd i bob creadur byw. Ond nid yw anwybodaeth yn arwain at ymgadw rhag cenhedlu plant. Mae'r un peth yn wir mewn amaethyddiaeth. Mae'r awdur yn cynghori'r amaethwr i 'hau ei had yn y bore' a pheidio 'â gorffwys cyn yr hwyr' (11:6). Gall hyn olygu un ai weithio'n ddiwyd drwy'r dydd neu hau ddwywaith ym mhob tymor, yn gynnar ac yn hwyr, er na ŵyr neb beth fydd y canlyniad. Nid oes gan ddynoliaeth obaith gwybod bwriad Duw.

### Dymuniad y galon

Mae cyngor y Pregethwr i'r ifanc yn dechrau gyda rhagarweiniad byr yn 11:7–8: 'Pleser i'r llygaid yw gweld yr haul'. Ni all neb wadu mor ddymunol yw edrych allan ar y byd ar fore braf. Mae'r un peth yn wir am fore oes. Dyletswydd dyn, petai'n byw yn hen, yw dal gafael ar bleserau ei blentyndod, gan gofio bod cyfnod hir yn y bedd yn ei aros.

Wrth gynghori gŵr ifanc i wneud yr hyn a fynno, 'rhodia yn ôl dymuniad dy galon a'r hyn a wêl dy lygaid' (11:9), mae'n amlwg nad oes gan y Pregethwr unrhyw broblem gyda dyheadau dynol. Ond onid yw'r agwedd hon yn annog anufudd-dod i Gyfraith Duw? Yn ôl y Gyfraith, dyletswydd Israel yw cadw 'holl orchmynion yr ARGLWYDD' a pheidio â 'phuteinio trwy fynd ar ôl y pethau y mae eich calonnau a'ch llygaid yn chwantu amdanynt' (Numeri 15:39).

### Cyngor i bobl Ifanc

Sylwer ar y defnydd a wna'r awdur o'r modd gorchmynnol: 'bydd lawen ... bydded iti fwynhad ... rhodia ... symud' (10:9–10), i ddatgan ei gymeradwyaeth o gael pleser yn ystod llencyndod. Mae'n fater o frys, oherwydd daw'r cyfnod maith yn Sheol, lle nad oes na mwynhad na llawenydd, ar warthaf pob un yn fuan iawn.

Mae dilyn dymuniad y galon hefyd yn fater o egwyddor, oherwydd dyna ewyllys Duw, fel y gwelsom eisoes yn 9:7. Ond trwy'r cwbl rydym yn atebol i Dduw am ein hymddygiad.

Nid dweud a wna'r Pregethwr fod ieuenctid yn ofer neu'n ddisynnwyr, ond dweud ei fod 'fel cysgod yn mynd heibio' (Salm 144:4; gw. hefyd Job 7:16). Rhaid taro'r haearn tra bo'n boeth.

### Be 'dych chi'n feddwl?

1. Sut fyddech chi'n dehongli adnod 11:1? Dyma gyfieithiad beibl.net: "Bydd yn hael a rhannu dy gynnyrch – ac ymhen amser fe gei dy dalu'n ôl."
2. Pa mor hawdd yw byw i heddiw, byw yn y presennol, a pheidio â phoeni am y dyfodol?

BBC radio cymru

***Caniadaeth y Cysegr***
**Sul, 6 Gorffennaf, am 7:30yb a 4:30yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Delyth Wyn Davies

***Oedfa Radio Cymru***
**Sul, 6 Gorffennaf, am 12:00yp**
Oedfa dan ofal Siân Meinir, Penarth




Cliciwch ar y poster uchod er mwyn gweld yr adnoddau sydd ar y wefan, neu ewch i www.gair.cymru

# Pen-rhys

*Y newyddion diweddaraf o Eglwys Unedig Llanfair, Pen-rhys*

Roedd y Pasg yn brysur iawn yn Llanfair gyda'n merched ifainc – Carly sy'n 14, Maddie sy'n 17, Jade sy'n 18, Tyra sy'n 18 a Yasmin sy'n 20 – yn arwain ein hoedfaon nifer o ddiwrnodau yn ystod yr Wythnos Sanctaidd. Ar nos Iau Cablyd, aeth cwmni ohonom i lawr y tyle i Eglwys y Drindod Sanctaidd ym mhentref Pendyrys i gydaddoli â'r Tad David Jones a'i gyfeillion.

Oherwydd y glaw, fe drefnon ni'r helfa wyau tu fewn yn hytrach na tu fas y bore canlynol, ond aethon ni ar y Bererindod i Ffynnon Fair ar ddydd Gwener y Groglith, er gwaetha'r tywydd gwlyb. Roeddwn ni gyd yn falch i weld yr haul yn tywynnu ar fore Sul y Pasg i fwynhau ein taith gerdded i fyny'r mynydd tu ôl i Ben-rhys, a 'nôl i'r caffi ar gyfer wyau wedi berwi a dishgled o de ac yna oedfa Sul y Pasg yn y capel yn y prynhawn. Yn ystod ail wythnos gwyliau'r Pasg, cymerodd deuddeg o'n plant rhan mewn gweithdy 'parkour' (dawns) am dri diwrnod gyda pherfformiad o flaen eu teuluoedd yng Nghanolfan Soar, Pen-y-graig ar y trydydd diwrnod.

### Gwasanaethu

Enillodd Llanfair wobr gydradd gyntaf cystadleuaeth Gwasanaethu'r Gymuned 2025 a drefnwyd gan y Gynghrair Gynulleidfaol ledled Cymru, yr Alban a Lloegr. Teithiodd Sharon Rees i'r cyfarfod blynyddol yn Nottingham ym mis Mai i dderbyn y tlws ar ran Llanfair.

### Cymorth Cristnogol

Fel arfer, roedd Wythnos Cymorth Cristnogol yn fwrlwm yn Llanfair yn ystod mis Mai gydag oedfa'r Sul, dosbarthiadau o blant o ysgol gynradd Pen-rhys yn dod i'r capel ar foreau Llun i ddysgu sut mae Cymorth Cristnogol yn gwneud gwahaniaeth i fywydau Aurelia a'i chymdogion yn Guatemala. Fe aeth y casglu o dŷ i dŷ yn arbennig o dda gyda chyfle i gynnal sgwrs a derbyn rhoddion wrth fynd o gwmpas y gymuned. Gwnaeth ein merched ifanc *smoothies* ffrwythau gyda'n ffrind Anne i werthu yn y caffi – blasus iawn. Yn ogystal â hynny, cafodd grŵp ohonom ein noddi i wneud 'her camau' yn ystod y mis, dros 10,000 cam y diwrnod!

**Sharon Rees**



*Ar ôl yr helfa wyau Pasg*



*Gwasanaethu'r Gymuned 2025*




*Ein merched yn codi arian at Gymorth Cristnogol*

## Wrth weld lluniau'r plant yn dioddef...

*(Caneuon Ffydd tôn rhif 695 – pwy all blymio dyfnder gofid)*

Wrth weld lluniau'r plant yn dioddef
diffodd wnawn a throi ein cefn,
'Mond gobeithio a gweddïo
y daw popeth 'nôl i drefn'.
Dysg in herio'r anghyfiawnder,
gwna ni'n ddewrach dros y gwir,
drwy'n geiriau bydded i'r byd gael clywed
dy lais yn glir.

Am rhy hir y buom dawel
er pob gweithred erchyll wnaed,
bu ein taw yn arf i'w rhyfel,
ar ein dwylo ni mae gwaed.
Maddau inni guddio'th Deyrnas
gwna ni'n ddewrach dros y gwir,
drwy'n geiriau bydded i'r byd gael clywed
dy lais yn glir.

Gad i'th Eglwys di drwy'r gwledydd
godi'r her heb oedi dim
a gwireddu'i galwad oesol –
dweud y gwir i'r rhai mewn grym.
Boed i'th Deyrnas ddod, o Iesu,
gwna ni'n gryf i ddal ein tir,
drwy'n geiriau bydded i'r byd gael clywed
dy lais yn glir.

**Casi Jones**



Barn Annibynnol

# Byd dyrys

Mae'n ddydd Gwener 13 Mehefin nid fy mod i'n ofergoelus, dydw i ddim, ond mae'n ddiwrnod llawn pryderon. Ddoe, y ddamwain ym maes awyr Ahmedabad yn India, a dihuno'r bore i glywed y newyddion bod byddinoedd arfog llywodraeth Israel wedi ymosod ar Iran. Mae'r byd yma'n ferw! Un digwyddiad yn anlwc ac yn anfwriadol, a'r llall wedi ei gynllunio ac yn fwriadol. Yn hwyrach y bore a chlywed bod llywodraeth y Deyrnas Unedig yn galw ar Israel ac Iran i bwyllo, a throi at ddeialog! A wnes i ddeall yr eitem newyddion yn iawn? Y rheswm dros ofyn yw oherwydd i mi ddarllen yn ddiweddar bod llywodraeth y DU wedi torri cyllid 'cymorth tramor' i'r gwledydd llai datblygedig er mwyn gwario mwy ar gryfhau adnoddau milwrol y DU. Dyna i chi baradocs!

### Masnach arfau

Wrth fuddsoddi mwy ar gynhyrchu yr amrywiol gerbydau milwrol, llongau a llongau tanfor, awyrennau, bwledi, rocedi, gynnau, drôns rhyfel ac ati, mae dadl o fewn y llywodraeth yn San Steffan bod hyn yn mynd i greu swyddi a fydd yn dda i'r economi ac i'n teuluoedd ni. Nonsens pur! Pwy maen nhw'n ceisio eu twyllo dwedwch? Dydi creu swyddi i gynhyrchu arfau rhyfel a'u gwerthu ar y 'fasnach arfau' byd-eang ddim yn syniad da o gwbl. Wrth wneud hynny, mae'r union fuddsoddiad yn lladd pobol dlota'n byd ni drwy eu hamddifadu o 'fara beunyddiol' a dŵr glân!.

Rhywle yn y cawlach, mae'r arfau a gynhyrchwyd yn y DU a hyd yn oed yma yng Nghymru – gan gwmni fel General Dynamics ym Merthyr Tudful er enghraifft – yn cael eu defnyddio gan Wcráin, Israel a sawl gwlad arall sydd yn ymladd. Mae'r grŵp Campaign Against the Arms Trade yn bwrw amcan bod Llywodraeth Prydain wedi gwerthu o leiaf £574 miliwn o drwyddedau allforio arfau i Israel ers 2008. Dyna, debyg, rai o'r arfau a'r dechnoleg a ddefnyddiwyd gan Fyddin Amddiffyn Israel (IDF) yn erbyn Gaza dros gyfnod y rhyfel yma sy'n parhau.





### Netanyahu a Llafur

Beth mae Netanyahu yn ceisio ei gyflawni wrth labyddio a lladd trigolion Gaza? Mae'n amlwg ei fod am gael gwared y Palestiniaid yn llwyr o'r tiroedd. Eto, araf a prin iawn yw'r gwleidyddion rheini sy'n barod i ddadlau achos a hawliau'r Palestiniaid i'w tir.

Mae gweld beth yw 'gwerthoedd' y Blaid Lafur heddi'n siom fawr i mi. Mae Llafur i'w gweld yn llawer mwy rhyfelgar na'r Toriaid erbyn hyn. Nid drwy fygwth a lladd y gelyn y daw heddwch. Yn hytrach, drwy drafod yn gall gan ystyried gofynion pob ochr yn y drafodaeth. Sylw Waldo ddegawdau'n ôl oedd yr angen i ffeindio 'ffordd drwy'r drain / At ochr hen elyn'

### Heddwch

Cyfarfod ag aelod un o eglwysi'r ardal yng nghaffi M&S y bore. Dyma hithau'n mynegi ei gofid bod y byd ar drothwy 'Rhyfel Byd' arall. Ar ryw olwg, mae'r rhyfel honno wedi cychwyn eisoes, gyda'r holl drafod, ymladd a lladd yn Wcráin, Rwsia, Israel, Gaza a nawr Iran, heb sôn am y rhyfeloedd bychain eraill rheini sydd ar droed ar wahanol gyfandiroedd. Os ydi pobol fel chi a fi yn medru synhwyro hyn, beth sy'n bod ar ein harweinwyr ni, dwedwch? Oni fedrant ddwyn perswâd a phwysau i geisio ffordd a ffyrdd tuag at heddwch? Does bosib.

Onid yw llywodraeth Israel yn cofio effaith yr erlid a'r hil-laddiad a brofwyd gan eu teuluoedd yn Ewrop dan bawen y Natsïaid llai na chan mlynedd yn ôl? Sut y gellir cyfiawnhau'r lladd sydd wedi, ac yn dal i fod, yn digwydd i drigolion Gaza? Dydi wylo a thwt-twtan o weld lluniau plant Gaza yn cael eu clwyfo a'u lladd ddim yn ddigon.

Y diweddar wleidydd Tony Benn – a mab i Margaret Benn a oedd yn ddiwinydd a chyn-lywydd Ffederasiwn Eglwysi Annibynnol yn Lloegr – sy'n nodi:

> Ar ôl y rhyfel (Ail Ryfel Byd) dwedodd pobol,'"Os ydych chi'n medru cynllunio i ryfela, pam na fedrwch chi gynllunio am heddwch?' Pan oeddwn i'n 17 daeth llythyr o'r Llywodraeth yn dweud: 'Mr Benn, a wnewch chi droi lan pan fyddwch yn ddwy ar bymtheg a hanner? Cewch fwyd am ddim, dillad am ddim, hyfforddiant am ddim, llety, a dau swllt a deg ceiniog y dydd i ladd Almaenwyr.' Ac meddai'r werin, 'Wel, os medrwn ni greu gwaith i bawb i ladd pobol, pam yn enw Duw na fedrwn ni greu gwaith i bawb mewn ysgolion da, ysbytai da, cartrefi da?'

Dydyn ni ddim wedi dysgu unrhyw beth am ddifrod rhyfeloedd y gorffennol, ydyn ni? Roedd y Proffwyd Eseia yn byw rhywle rhwng 740 a 700 CC, oedd yn gyfnod anodd yn wleidyddol, gyda chymdeithas yn dadfeilio neu'n pydru'n foesol o'i amgylch. Galwodd Eseia ar bobol ei gyfnod i droi cefn ar y drwg a cheisio'r da. Rhybuddiodd ei bobol rhag dibynnu ar rymoedd militaraidd, ond yn hytrach i ddibynnu ar Dduw. Gweler Eseia 7 adnodau 7–9:

> Ond dyma mae'r Meistr, yr
> ARGLWYDD, yn ei ddweud:
> 'Fydd y cynllun ddim yn llwyddo,
> Fydd y peth ddim yn digwydd ...
> Os na wnewch chi gredu,
> wnewch chi'n sicr ddim sefyll.'

Os cofiaf yn iawn, y diweddar gyn-arlywydd Tanzania, Julius Nyerere yntau a ddywedodd yn ei ddydd, 'Peace is not the absence of war, but the presence of God.'

Ein cyfrifoldeb ni yw hi nawr i lefaru gair yn ei amser. Mentrwn felly yn enw Duw i godi'n lleisiau fel eglwysi lleol a chydweithio am heddwch i bawb o bobol y byd!

**Tom Evans**

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)


## GOFALAETH

**Tabernacl, Hendy-gwyn ar Daf Bethel, Llanddewi Felffre a Triniti, Llanboidy**

Gwahoddir ymholiadau a cheisiadau oddi wrth weinidogion ordeiniedig a myfyrwyr sydd â diddordeb i weinidogaethu'n rhan amser yn yr ofalaeth hon. Byddwn yn dilyn canllawiau Undeb yr Annibynwyr.

Cysyllter â'r Ysgrifennydd am fanylion erbyn Gorffennaf 31ain 2025.

**Meryl James**

**E-bost:** meryljames534@btinternet.com

**Ffôn:**(01994) 240350

**Ffôn symudol:** 07977 553796

*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* tyst@annibynwyr.cymru

*Golygyddion*

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

*Dalier Sylw!*

Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# Cyfarfodydd Blynyddol Cyfundeb Llŷn ac Eifionydd 2025



*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*